

Adolygiad Blynyddol o Berfformiad

2023/24



CONTENTS

Crynodeb Gweithredol	3
Ynglŷn â'r Adroddiad hwn	5
Sut mae'r Adolygiad Blynnyddol o Berfformiad yn cael ei ddatblygu	6
Hunanasesu	7
Llywodraethu	7
Defnyddio adnoddau	8
Beth oedd canlyniad ein hymgynggori a'n hymgysylltu?	11
Amcan Lles 1	14
Amcan Lles 2	22
Amcan Lles 3	36
Amcan Lles 4	43
Amcan Lles 5	51
Amcan Lles 6	60

Crynodeb Gweithredol

Mae Abertawe yn ddinas sy'n cael ei thrawsnewid gan uchelgais a buddsoddiad. Mae prosiectau mawr yn adfywio canol ein dinas ac mae buddsoddiad newydd yn ein gwasanaethau a'n cymunedau yn cefnogi pobl o bob oed.

Mae'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer 2023/24 yn asesu cynnydd y cyngor o ran cyflawni ei Amcanion Llesiant, sy'n ganolog i Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r amcanion hyn yn ymwneud â chi, pobl Abertawe, ac maent yn cynnwys diogelu pobl rhag niwed, gwella addysg a sgiliau, trawsnewid yr economi a'r seilwaith, mynd i'r afael â thlodi, hyrwyddo adferiad natur, a gwella gwytnwch ariannol.

Wrth edrych yn ôl ar 2023/24 gallwn weld beth sydd wedi'i gyflawni yn wyneb amodau economaidd heriol sy'n effeithio ar y cyngor yn ogystal â'n trigolion. Ein cynllunio ariannol cryf a'n ffocws ar ddarparu gwasanaethau effeithlon i'n cymunedau yw sylfaen ein llwyddiannau.

Llwyddiannau a Heriau Allweddol:

Diogelu Pobl rhag Niwed: Gwnaeth y cyngor gynnal safonau uchel o ddiogelu unigolion agored i niwed, gyda gwelliannau nodedig mewn llety mewnol i blant, gan eu galluogi i ffynnu mewn amgylchedd cefnogol. Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar ddull ataliol o ymdrin â gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant fel bod pobl agored i niwed yn cael cymorth cynnar ac effeithiol. Mae heriau'n parhau i fodoli o ran cynnal gwydnwch mewn gwasanaethau cymdeithasol oherwydd galw cynyddol, costau ychwanegol a phwysau ar y gweithlu.

Gwella Addysg a Sgiliau: Mae gan Abertawe ganlyniadau dysgwyr uwch na'r cyfartaledd ac mae mwy o ysgolion yn gwella eu sgiliau Cymraeg. Rydym wedi buddsoddi mewn cyfleusterau addysgu newydd a gwell mynediad at ddysgu o safon ynghyd â darparu prydau ysgol am ddim i'n holl ddisgyblion ieuengaf. Rydym yn buddsoddi mewn sgiliau digidol ac mae gennym well cysylltiadau â chyflogwyr i gefnogi myfyrwyr i ddod o hyd i'w llwybr gyrfa. Mae cyfraddau presenoldeb ysgol yn gwella, ond mae mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn.

Trawsnewid yr Economi a'r Seilwaith: Mae gorwel a seilwaith Abertawe yn cael eu trawsnewid gyda phrosiectau ailddatblygu mawr y cyngor sydd wedi'u cynllunio i ysgogi adfywio economaidd, gan gynnwys Arena Abertawe, 71/72 Ffordd y Brenin a Theatr y Palas. Er gwaethaf effaith ffactorau economaidd allanol fel yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant, mae trosglwyddiad Abertawe i fod yn ddinas fodern a chynaliadwy ar y gweill gyda buddsoddiadau mawr yn Sgwâr y Castell a'r Storfa ymhlith camau yn y dyfodol.

Trechu Tlodi a Galluogi Cymunedau: Rydym wedi bod yno i bobl Abertawe yn ystod yr argyfwng costau byw, gan gefnogi mentrau fel y cynllun bwyd gwyliau ysgol, gwasanaethau bws rhad ac am ddim wedi'u targedu, mannau chwarae awyr agored newydd a Mannau Abertawe. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Trechu Tlodi wedi grymuso ein cymunedau trwy fentrau lleol a chyflogadwyedd wedi'i dargedu yn ystod ansicrwydd economaidd. Mae atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn parhau i fod yn her sylweddol. Ond mae ein haddewid i ddod o hyd i lety i bawb sy'n ddigartref a chynyddu ein stoc dai, yn helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau llawer o bobl.

Cyflawni Adfer Natur a Newid Hinsawdd: Datblygodd y Cyngor ei nodau sero net ac adfer natur trwy gyfrwng prosiectau gan gynnwys mentrau ynni adnewyddadwy, parhau i fuddsoddi mewn cerbydau trydan a chadwraeth bioamrywiaeth. Mae cynigion ar gyfer un o brosiectau ynni adnewyddadwy mwyaf y DU yn cael eu llunio ynghyd â chynlluniau ar gyfer fferm solar newydd a rhwydwaith gwresogi ardal, gan ddod ag ynni newydd a fforddiadwy i Abertawe. Fodd bynnag, mae ein huchelgais i ddod yn awdurdod lleol sero-net erbyn 2030 yn gofyn am newidiadau pellach i'r ffordd rydym yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau na ellir eu cyflawni heb gymorth a chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Trawsnewid a Gwytnwch Ariannol: Parhaodd ein dull o reoli ariannol yn gadarn yn ystod cyfnod economaidd heriol i'r DU. Roedd hyn yn golygu y gallem barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg sy'n golygu cymaint i'n cymunedau. Rydym yn falch o fod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru lle mae pawb yn bwysig. Mae ein buddsoddiad parhaus mewn ysgolion mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn cyflawni ar gyfer ein dysgwyr. Fodd bynnag, bydd pwysau chwyddiant yn y dyfodol, y galw cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion a mynd i'r afael â digartrefedd yn gofyn am reoli'n hadnoddau'n ariannol ddarbodus barhaus.

Fel Cyngor, rydym yn gwella'r ffordd rydym yn gweithio ac yn cwrdd â'ch anghenion. Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod gennym safonau uchel o atebolrwydd a thryloywder, gyda ffocws cryf ar reoli risg a chynllunio ariannol. Mae 90% o holl archwiliadau ein gwaith a'n gwasanaethau'n cael eu graddio naill ai'n uchel neu'n sylweddol sy'n rhoi hyder i ni ein bod yn cwrdd â'ch anghenion yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Edrych ymlaen at 2024/25: Gallwn edrych ymlaen gydag optimistiaeth a hyder y bydd ein dinas yn parhau i ddatblygu, arloesi a thrawsnewid yn y blynyddoedd i ddod, wedi'u cryfhau gan ein ffocws ar gefnogi ein preswylwyr a'u lles.

Mae'r adolygiad hwn yn nodi meysydd i'w gwella rydym yn addo gwneud cynnydd pellach arnynt dros y flwyddyn i ddod. Byddwn yn uchelgeisiol yn ein hymdrechion i barhau i drawsnewid ein dull o ymdrin â gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant a theuluoedd, yn enwedig mewn gwasanaethau atal. Byddwn yn gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth fel y gallwn lunio ein gwasanaethau mewn cydweithrediad â nhw.

Mewn addysg, byddwn yn buddsoddi mewn cymorth pellach i ddysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol drwy gyfrwng cyfleusterau addysgu arbenigol, ac yn gweithio gyda theuluoedd, gofalmwr ac ysgolion i wella cyfraddau presenoldeb. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein heconomi a chanol y ddinas, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma trwy fuddsoddi yn Sgwâr y Castell a'r Storfa.

Byddwn yn cefnogi ein cymunedau, gan rymuso eu gwytnwch trwy fynd i'r afael â thlodi, paratoi i fod yn Ddinas Ddysgu Unesco yn 2025 a chefnogi mentrau dan arweiniad y gymdogaeth fel Men's Sheds. Ein nod yw datblygu arferion gwaith mwy gwyrdd, gwneud ein gwasanaethau digidol yn hygyrch i'n holl breswylwyr ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn ein gweithgareddau beunyddiol fel y gall pawb fyw gydag urddas a balchder yn ein dinas wych.

Mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf, ond rydym yn deall yr heriau sy'n ein hwynebu yn ystod y flwyddyn i ddod a thu hwnt. Bydd cynaliadwyedd ariannol a'n hymrwymiad i fynd i'r afael â blaenoriaethau pobl Abertawe yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

Beth yw Adolygiad Blynyddol o Berfformiad?

Diben yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yw darparu hunanasesiad o gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant ar gyfer 2023/24.

Mae ein Hamcanion Llesiant, gan gynnwys y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i'w cyflawni, a sut rydym yn mesur perfformiad, wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Ein hamcanion lles yw:

- Diogelu pobl rhag niwed
- Gwella Addysg a Sgiliau
- Trawsnewid yr Economi a'r Seilwaith
- Trechu Tlodi a Galluogi Cymunedau
- Cyflawni Adfer Natur a Newid Hinsawdd
- Trawsnewid a Chadernid Ariannol

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r meysydd y cytunwyd arnynt ar gyfer gwelliannau o dan bob Amcan Llesiant ar gyfer 2023/24 ac yn nodi'r meysydd gwella ar gyfer 2024/25.

Dyletswydd statudol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni ein dyletswydd o dan Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyhoeddi Adroddiad Hunanasesiad blynyddol. Wrth wneud hynny, mae'r adolygiad yn ceisio disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau'n dda wrth gyflawni ei amcanion llesiant drwy weithio'n unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn disgrifio ein chwe blaenoriaeth allweddol (Amcanion Llesiant) a gwerthoedd ac egwyddorion ein sefydliad sy'n sail i gyflawni ein blaenoriaethau a'n strategaeth gyffredinol; mae hyn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y 'Ddeddf') i bennu Amcanion Llesiant.

Mae ein Hamcanion Llesiant yn amlinellu cyfraniad y Cyngor at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf. Maent yn esbonio sut y byddwn yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau hyn, gan wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Abertawe hefyd. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddilyn yr egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn y Ddeddf.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae hefyd yn esbonio sut rydym yn gwneud y mwyaf o'n heffaith ar yr amcanion a'r nodau hyn trwy alinio ein gwaith â'r egwyddorion cynaliadwy canlynol:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a hir.
- Atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd a'u bod yn ategu rhai cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

Sut mae'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad yn cael ei ddatblygu

Mae'r adolygiad yn defnyddio nifer o ffynonellau i gyfrannu at yr asesiad perfformiad, gan gynnwys:

Dangosyddion perfformiad allweddol y Cyngor – mae ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur cynnydd wrth gyflawni'r Amcanion Llesiant. Caiff y dangosyddion hyn eu hadrodd bob chwarter i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet, y Cyngor, Craffu, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dynodir statws RAG i ddangosyddion perfformiad: **Gwyrdd** lle mae'r dangosydd ar darged neu'n uwch, **Oren** lle mae'r canlyniad o fewn 5% i'r targed, a **Coch** lle mae'r canlyniad yn fwy na 5% o'r targed

Cynnydd yn erbyn Camau ym mhob Amcan Llesiant – Mae pob Amcan Llesiant yn cael ei gefnogi gan set o gamau neu weithredoedd. Drwy fonitro'r camau hyn, gallwn dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd a lle y gallai fod angen gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd ei adrodd bob chwarter i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet, y Cyngor, Craffu, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ymgynghori ac ymgysylltu – mae'r Cyngor yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu gan gynnwys ei arolwg staff, arolwg boddhad trigolion ac arolwg cyllideb blynyddol. Mae'r gweithgareddau hyn drwy gydol blwyddyn yn rhoi cyfleoedd i randdeiliaid roi eu barn ar wasanaethau a pherfformiad y Cyngor.

Monitro ariannol – caiff cyllid y Cyngor eu monitro o fewn gwasanaethau a'u hadrodd bob chwarter i Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet, y Cyngor, Craffu, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Adroddiad Alldro blynyddol y Cyngor yn darparu asesiad cynhwysfawr o'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Llywodraethu – Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn gweithredu arnynt ac yn atebol amdanynt. Mae Grŵp Llywodraethu Strategol y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio annibynnol dan gadeiryddiaeth annibynnol yn monitro'r trefniadau hyn drwy gydol y flwyddyn. Asesir effeithiolrwydd llywodraethu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a gyhoeddir yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor.

Rheoli risg – mae fframwaith rheoli risg y Cyngor yn darparu dull systematig a chyson o amlygu a rheoli risgiau corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor. Mae'r cofrestrau risg corfforaethol a gwasanaeth yn nodi'r risgiau cyfredol a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w lliniaru a'u rheoli. Diweddarwyd y fframwaith yn ystod 2023/24 i reoli risgiau a materion yn fwy effeithiol.

Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion a godwyd gan ei bwyllgorau i helpu i wella perfformiad a datblygu polisïau.

Adroddiadau arolygu – mae'r Cyngor yn destun archwiliad gan nifer o gyrff rheoleiddio gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i nodi ei gryfderau a meysydd i'w gwella, yn ogystal â dysgu o arfer gorau. Mae argymhellion a chynnydd wedi'u nodi mewn traciwr sy'n cael ei adrodd bob chwarter i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y cyngor.

Hunanasesu

Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio hunanasesu i ddisgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, a defnyddio ei adnoddau'n dda wrth gyflawni ei amcanion llesiant drwy weithio'n unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cynhaliodd y swyddog arweiniol ar gyfer pob Amcan Llesiant asesiad strategol o gynnydd, gan werthuso'r hyn a weithiodd yn dda a nodi meysydd i'w gwella. Cefnogwyd yr asesiad hwn gan astudiaethau achos yn arddangos llwyddiannau, adolygiad perfformiad, a dadansoddiad o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2023/24, ynghyd â gwerthusiad blaengar o gyfleoedd gwella ar gyfer 2024/25.

Cwblhawyd yr hunanasesiad o gynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant ar y cyd ag adroddiadau monitro perfformiad diwedd blwyddyn 2023/24 y Cyngor a ddangosodd fod 66% o'r dangosyddion perfformiad naill ai'n cyrraedd neu'n gwella eu targedau. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn tynnu ar adborth gan drigolion Abertawe, staff y Cyngor, undebau llafur a busnesau.

Mae'r adolygiad yn asesu effeithiolrwydd y Cyngor yn 2023/24 wrth arfer ei swyddogaethau a defnyddio ei adnoddau drwy:

- Cynnydd sy'n bodloni'r camau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol i gyflawni ei Amcanion Llesiant.
- Ei ddefnydd o adnoddau (cyllidebau, gweithlu, ac asedau) a ddefnyddir wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant.
- Cyfraniad ei Amcanion Llesiant i'r Nodau Cenedlaethol.
- Gweithio'n gynaliadwy (yn unol â'r 5 ffordd o weithio – yr egwyddor datblygu cynaliadwy – a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Cafodd yr adolygiad hwn a phob hunanasesiad ei wirio a'i herio gan Grŵp Llywodraethu Strategol y cyngor, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

Llywodraethu

Dangosodd fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2023-24 ddull strwythuredig a chynhwysfawr o gynnal safonau uchel o atebolrwydd, tryloywder ac ymddygiad moesegol. Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor wedi'i adeiladu ar fframwaith "Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol" SOLACE a CIPFA, gan bwysleisio saith egwyddor allweddol: uniondeb, ymgysylltu â rhanddeiliaid, diffinio canlyniadau, penderfyniad ymyriad, datblygu gallu, rheoli risg ac atebolrwydd.

Mae ymrwymiad y Cyngor i'r egwyddorion hyn yn amlwg yn ei ddatganiad llywodraethu cynhwysfawr a'i amrywiol fecanweithiau mewnol. Mae gan y Cyngor God Llywodraethu Corfforaethol, a fabwysiadwyd ym mis Awst 2017, sy'n cyd-fynd â chanllawiau CIPFA/SOLAC. Cefnogir y cod hwn gan y Cyfansoddiad, y Swyddog a Chod Ymddygiad Aelodau, a phrotocolau amrywiol, gan sicrhau bod yr holl gamau gweithredu'n cadw at safonau moesegol a chyfreithiol sefydledig. Mae sesiynau hyfforddi rheolaidd i aelodau a swyddogion ar y codau hyn yn atgyfnerthu'r egwyddorion hyn ymhellach.

Dangosodd y Cyngor ffocws cryf ar reoli risg drwy gydol 2023/24. Cynhaliwyd diweddariadau ac adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a sicrhodd fod risgiau'n cael eu nodi, eu monitro a'u lliniaru'n effeithiol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â'n fframwaith rheoli risg.

Roedd archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn rhoi sicrwydd sylweddol am systemau rheoli mewnol y Cyngor. Dangoswyd bod mecanweithiau rheoli'r Cyngor yn effeithiol i raddau helaeth gyda 90% o'r archwiliadau wedi'u cwblhau gan arwain at sicrwydd uchel neu sylweddol. O'r 62 archwiliad a gwblhawyd, cafodd 26 sicrwydd uchel a chafodd 30 sicrwydd sylweddol. Mae hyn yn dangos bod y systemau sydd ar waith ar gyfer rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol, gyda dim ond mân feysydd sydd angen eu gwella. Er bod y rhan fwyaf o arferion llywodraethu wedi'u graddio'n uchel, dangosodd rhai meysydd gymhwysiad cymysg. Yn benodol, nodwyd bod angen gwella cydymffurfiaeth â pholisïau a rheolau, ystyriaethau cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol, ac adolygiadau perfformiad. Nododd yr Uwch Ddatganiadau Sicrwydd Rheoli (SMAS) er bod 56% o'r categorïau wedi dangos cymhwysiad cryf a 31% wedi'u gwreiddio, dangosodd 11% gymhwysiad cymysg. Roedd y rhain yn cynnwys meysydd fel gwella cydymffurfiaeth ac adolygiadau perfformiad, gan dynnu sylw at anghysondebau y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd.

Mae mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â system Oracle Fusion, gwella cysondeb arferion llywodraethu, a gwella'r gweithlu a strategaethau diogelwch data yn feysydd i'w gwella yn y dyfodol. Trwy ganolbwyntio ar y meysydd hyn, gall y Cyngor gryfhau ei fframwaith llywodraethu ymhellach a sicrhau darpariaeth gynaliadwy ac effeithiol o wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.

Defnyddio adnoddau

Rheolaeth ariannol

Dangosodd rheolaeth ariannol y Cyngor sawl cryfder yn 2023-24, yn enwedig mewn arbedion refeniw a chynllunio ariannol strategol. Mae tanwariant sylweddol mewn cyllidebau cyfalaf a refeniw yn dangos rheoli costau effeithiol a chynllunio ariannol darbodus. Roedd gallu'r Cyngor i reoli pwysau gan gynnwys chwyddiant a dyfarniadau cyflog yn ganolog i gynnal iechyd ariannol a chyflawni ei agenda uchelgeisiol. Roedd integreiddio'r Cynllun Trawsnewid Corfforaethol i gynllunio ariannol yn creu fframwaith ariannol mwy ystwyth ac ymatebol, gan alluogi'r Cyngor i addasu i amodau economaidd newidiol a dyrannu adnoddau'n fwy effeithiol.

Roedd gwariant refeniw uniongyrchol cyffredinol ar gyfer 2023/24 £13.6 miliwn yn llai na'r gyllideb ddiwygiedig, gan alluogi tynnu net o gronfeydd wrth gefn craidd a glustnodwyd (ac eithrio cyllid cyfalaf) i gael ei leihau'n sylweddol o dros £35 miliwn i £7 miliwn). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod tanwario ar y gwasanaeth o ganlyniad oedi ar wario a llithro yn cael ei ddangos fel tanwariant, ond dangosir y ceisiadau gwrthbwysio i'w cario ymlaen am symiau heb eu gwario o dan y llinell fel addasiadau wrth gefn. Mae'r gofyn cyffredinol am gario ymlaen a symiau sydd wedi'u hymrwymo ymlaen llaw ar gyfer cyllid cyfalaf ychwanegol yn 2024/25 oddeutu £7 miliwn ac yn arbennig o arwyddocaol i rai cyfarwyddiaethau - er nad yw'n rhan o'r amrywiad mewn alldro ei hun. Oni bai ei fod yn cael ei ddarllen ar y cyd, fodd bynnag, byddai'n rhoi argraff gamarweiniol o danwariant gwaelodol sylweddol nad oes disgwyl iddo ddigwydd

eto. Yn wir, bydd gwasanaethau o dan bwysau gwario sylweddol yn 2024/25 o ystyried lefelau uchel ac estynedig o chwyddiant sydd bellach wedi'i fewnosod yn llawn (er gwaethaf yr hyn y gallai ffigurau blynyddol cyffredinol ei awgrymu ynghylch chwyddiant yn gostwng), demograffeg a galw, a rhoi'r gorau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i wasanaeth untro, yn enwedig mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

I ddechrau, gosodwyd cyllideb gyfalaf y Cyngor ar 2023/24 ar £154.9 miliwn ac yn ddiweddarach cynyddodd i £172.5 miliwn. Roedd gwariant cyfalaf gwirioneddol yn £133.1 miliwn, gan arwain at danwariant o £39.4 miliwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd oedi ac aildrefnu mewn sawl prosiect cyfalaf. Amlygodd y alldro cyfalaf ymrwymiad parhaus i brosiectau mawr gan gynnwys Arena Abertawe, adnewyddu Theatr y Palas a 71/72 Ffordd y Brenin.

Adroddodd y Cyfrif Refeniw Tai warged o £5.9 miliwn, gwelliant o'r diffyg a ragwelir i ddechrau o £3.6 miliwn. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau, fel chwyddiant adeiladau uwch a'r angen i gontractwyr ychwanegol reoli ôl-groniadau eiddo.

Rheoli asedau

Ym mis Gorffennaf 2021 cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2021-25. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer dull corfforaethol o reoli asedau ac yn nodi'r fframwaith eang o fentrau rheoli asedau lefel uchel diwygiedig ac wedi'i diweddarau a gynigiwyd gan y Cyngor ar gyfer cyfnod 2021-25, sef dilyniant i'r cynllun blaenorol ar gyfer 2017-21.

Tynnodd diweddariad ym mis Mehefin 2023 sylw at y cynnydd hyd yma ar rai o'r mentrau allweddol o dan y categorïau eang canlynol:

- Landlord Corfforaethol
- Gwarediadau
- Buddsoddiadau eiddo
- Adfywio a Datblygu Economaidd
- Rhaglen Gyfalaf
- Cydweithio
- Newid hinsawdd

I grynhoi, bu cynnydd cadarnhaol ar draws pob maes gyda ffocws parhaus ar ystâd gorfforaethol effeithlon trwy gydweithio parhaus, sy'n gweithio ar hyd a lled pob sector.

Gweithlu

Roedd y Strategaeth Gweithlu newydd ar waith ar gyfer ei blwyddyn lawn gyntaf yn 2023/24. Mae hyn wedi ein galluogi i ddadansoddi ei pherfformiad, ei heffeithiolrwydd a'i heffaith ar y gweithlu. Amlygir nifer o bwyntiau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r data isod.

Ar y cyfan, mae ein gweithlu yn 60% o ferched a 40% yn ddynion. Adlewyrchir hyn yn y chwarter cyflog uchaf lle mae 58% o weithwyr yn fenywod. Mae hyn wedi helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2023-24 o 5.64% i 2.01% ar 31 Mawrth 2023. Mae'r bwlch cyflog canolrifol cyffredinol hefyd wedi gostwng o 12.64% i 3.73% ar 31 Mawrth 2023.

Mae adolygiad a chyflwyniad o'r Cynllun Gwerthuso Swyddi ar gyfer Prif Swyddogion wedi'i gwblhau. Mae hyn yn cefnogi'r gydnabyddiaeth o berfformiad ar y lefel uwch hon o fewn y Cyngor ac yn gwneud y trefniadau talu a graddio gorau posibl.

Mae ein cynllun prentisiaeth yn parhau i dyfu gyda 108 o brentisiaethau yn digwydd yn ystod 2023-24, cynnydd o saith o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae cyfraddau cadw ymhlith ein gweithlu yn parhau i fod yn uchel gyda throsiant o 9.5% ar gyfartaledd ar draws y sefydliad. Ar draws y Cyngor mae ein staff yn dewis aros gyda ni yn y tymor hir. Mae perfformiad presenoldeb y gweithlu wedi gwella gyda lefelau absenoldeb yn gostwng o 12.3 diwrnod y FTE yn 2022-23 i 10.7 diwrnod y FTE (gan gynnwys staff mewn ysgolion), yn erbyn targed o 10 diwrnod y FTE.

Lansiwyd system rheoli perfformiad newydd ym mis Gorffennaf 2023 ac yn dilyn cynllun peilot yn y Gwasanaethau Corfforaethol, mae cyfraddau cydymffurfio ac ymgysylltu wedi bod yn uchel o fewn y gyfarwyddiaeth, gyda 100% o weithwyr ag amcanion perfformiad unigol wedi'u gosod ar gyfer y flwyddyn. Mae arfarniadau wedi dilyn y duedd hon gyda chyfraddau cydymffurfio ac ymgysylltu yr un mor uchel ac mae cylch llawn o berfformiad ar draws y gyfarwyddiaeth ar gael. Bydd y Cyngor Ehangach yn dechrau cyflwyno'r system newydd ar ôl derbyn adborth o'r cyfnod peilot.

Ein dull o gynllunio'r gweithlu yw defnyddio adnoddau mewn ffordd hyblyg ac addasadwy. Cyflawnwyd hyn drwy sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth gynllun gweithlu sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu dull aml-fedrus mewn Cyfrifon sy'n Daladwy a Phrynu lle gall timau addasu ac ailffocysu adnoddau'n gyflym i ateb y galw newidiol pan fydd yn digwydd. Mae effaith y radd hon o hyblygrwydd wedi galluogi aelodau'r tîm i ddatblygu eu sgiliau a chyflawni targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Roedd y cynnydd yn erbyn amcanion Strategaeth y Gweithlu yn gryf yn ystod 2023-24 gyda 70% wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyfforddiant a datblygiad personol yn allweddol i effeithiolrwydd y gweithlu yn yr amgylchedd newidiol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant staff, yn enwedig gyda chefnogaeth Coleg Gŵyr.

Ymhlith y llwyddiannau hyd yn hyn:

- Mae bylchau sgiliau'n cael eu hymchwilio mewn meysydd gwasanaeth rheng flaen i lywio anghenion datblygu ein staff yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys treialu rhaglen Dadansoddi Anghenion Datblygu yn llwyddiannus sy'n sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir o'n hangen corfforaethol a pharatoi a datblygu cynefino corfforaethol.
- Mae hyfforddiant a mentora proffesiynol yn digwydd ar draws y Cyngor gyda nifer cynyddol o staff yn ennill cymwysterau yn y maes hwn yn 2023 a 2024.
- Mae'r rhaglen datblygu rheolwyr wedi parhau i dyfu, ac mae'r ddarpariaeth wedi cael ei hehangu, gyda rhaglenni newydd yn cael eu lansio yn 2024.

Beth oedd canlyniad ein hymgynggori a'n hymgysylltu?

Tystiolaeth sy'n seiliedig ar brofiad

Mae cymryd rhan yn sail i bopeth a wnawn yng Nghyngor Abertawe. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r dystiolaeth fewnol a rheoleiddiedig/arolygu gadarn, rydym hefyd yn ystyried yr effeithiau ar ein rhanddeiliaid amrywiol a'u canfyddiadau.

Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan ein Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, a ddiweddarwyd yn 2022. Mae adborth o'n harolwg trigolion, arolwg busnes, arolwg undebau llafur ac ymatebion sy'n ymwneud â gweithgarwch yn seiliedig ar wasanaeth a chorfforaethol, megis yr arolwg cyllidebol, a'r arolwg staff wedi llywio'r broses hunanasesu. Fel cyngor, rydym hefyd wedi cofrestru i gymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol i drigolion a fydd yn y dyfodol yn darparu dull cyson o gasglu adborth ar draws cyngorau.

Yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru, ailgyflwynwyd arolwg trigolion blynyddol i helpu olrhain lefelau perfformiad a boddhad a'n helpu i fodloni'r gofynion ymgysylltu a amlinellir yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Mae'r canlyniadau'n llywio'r broses gyllideb flynyddol a'r adolygiad blynyddol o berfformiad.

Bob blwyddyn fel rhan o'r broses o osod cyllideb rydym yn cynnal arolwg cyllideb. Mae'r arolwg yn rhoi cyfle i drigolion ddweud eu dweud ynghylch cyllideb a blaenoriaethau gwariant y Cyngor. Mae'r ddau arolwg yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i'r Cyngor a ddefnyddir i lywio ein gwasanaethau a'n gwaith yn y dyfodol. Yn 2023/24 cymerodd 1,205 o bobl ran yn arolwg y preswylwyr a chymerodd 521 o bobl ran yn arolwg y gyllideb.

Cynhaliwyd arolwg staff ym mis Gorffennaf 2024, ac eleni roedd staff yn gallu cymryd rhan yn unigol a hefyd fel rhan o dîm. Cymerodd cyfanswm o 2492 o weithwyr ran yn yr arolwg staff, sy'n cynrychioli 28% o'r gweithlu nad yw'n addysgu.

Rhoddodd yr arolwg gyfle i weithwyr ddweud eu dweud ar ymgysylltu â staff, gweithio i'r Cyngor a sut mae'r Cyngor yn perfformio.

Mae gan y Cyngor berthynas waith agos ag Ardal Gwella Busnes (AGB) Abertawe. Fel rhan o'n proses hunanasesu, gwnaethom gynnal arolwg busnes a gefnogir gan AGB a gyflwynodd ymateb yn cynrychioli busnesau Abertawe.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Undebau Llafur (ULI) cydnabyddedig, gyda threfniadau clir a rheolaidd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae cynrychiolwyr lleol a rhanbarthol ULI yn cwrdd â swyddogion AD yn fisol. Mae cyfarfodydd ar wahân ar gyfer ysgolion. Mae cynrychiolwyr ULI yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau a newid sefydliadol. Maent yn cyfrannu syniadau a safbwyntiau gwahanol ac yn cefnogi eu haelodau mewn cyfarfodydd sy'n canolbwyntio

ar effeithiau gweithlu unrhyw newidiadau. Mae'r holl adolygiadau polisi AD yn cael eu gwneud gydag ymgynghoriad llawn ag ULI.

Fel rhan o'n proses hunanasesu, gwnaethom gynnal arolwg undebau llafur i gasglu adborth ar ein perfformiad.

Canlyniadau Ymgynghori ac Ymgysylltu

Dyma farn y rhai a ymatebodd i'n harolygon ar ein perfformiad cyffredinol, rheolaeth adnoddau a llywodraethu.

Sut mae'r Cyngor yn perfformio?

Mae gan ein staff, undebau llafur a busnesau olwg gadarnhaol ar sut mae'r Cyngor yn perfformio. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod y Cyngor yn gyffredinol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Dywedodd staff wrthym fod y Cyngor yn dda am ddweud wrthyn nhw sut rydym yn perfformio, a dywedodd mwyafrif clir wrthym eu bod yn siarad yn gadarnhaol am weithio i'r Cyngor gyda ffrindiau a theulu. Roedd hanner y trigolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth gan y Cyngor. Cytunodd ychydig dros draean fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon yn gyffredinol gyda chwarter yn dweud nad ydyn nhw'n cytuno nac yn anghytuno. Mae ychydig llai na chwarter yn cytuno bod y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt sut mae'n perfformio, a chwarter arall heb gytuno nac anghytuno.

Sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau?

Mae staff, undebau llafur a busnesau'n gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau. Mae bron i hanner y trigolion yn cytuno bod y Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddynt. Mae lle i wella yma, rydym yn cydnabod pwysigrwydd dangos gwerth am arian i'n rhanddeiliaid.

Pa mor dda yw llywodraethu'r Cyngor?

Ar y cyfan mae staff, undebau llafur a busnesau yn fodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg pethau. Ni wnaethom gasglu barn trigolion ar hyn yn 2023/24, ond byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys mewn arolygon yn y dyfodol.

ADOLYGU A HUNANASESU EIN HAMCANION LLESIANT

Amcan Lles 1:

Diogelu pobl rhag niwed –
i ddiogelu ein dinasyddion rhag
niwed neu gam-fanteisio



Amcan Lles 1: Diogelu pobl rhag niwed – i ddiogelu ein dinasyddion rhag niwed neu gam-fanteisio

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan llesiant:

- Mae Abertawe yn ddinas deg a chyfartal lle gall plant gael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod, yn ddiogel o fewn eu teuluoedd.
- Mae Abertawe yn ddinas iach lle gall pawb ddisgwyl byw bywydau hapus, iach a boddhaus; i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain ac heneiddio'n dda.
- Mae Abertawe yn ddinas hawliau dynol sydd wedi ymrwymo i wella iechyd, lles, diogelwch ac i hyrwyddo hawliau oedolion, plant a theuluoedd bregus.
- Ein nod yw atal ac ymyrryd yn gynnar, lle mae person neu blentyn mewn perygl o niwed, camdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio, a sicrhau'r gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo diogelu pobl agored i niwed fel busnes pawb, ar draws y Cyngor, drwy weithlu medrus a phroffesiynol, ein haelodau etholedig ac unrhyw sefydliad neu berson sy'n ymgymryd â gwaith ar ein rhan.

Ein hasesiad strategol o'n perfformiad

Asesiad Strategol

Diogelu lles cymunedau fu ein prif flaenoriaeth erioed. Yn 2023-24 gwnaed camau breision i sicrhau bod aelodau mwyaf bregus cymdeithas yn cael eu diogelu a'u cefnogi. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, mae perfformiad ar draws y gyfres o ddangosyddion diogelu'n parhau'n gryf gyda'r mwyafrif yn cwrdd â'u targedau. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn parhau i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol sy'n helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau diogelu.

Un o'r strategaethau allweddol a weithredwyd oedd cynyddu llety mewnol i blant bregus, a oedd â'r nod o ddarparu amgylcheddau a chymorth sefydlog. Nid ychwanegu mwy o gyfleusterau yn unig oedd diben y cam hwn ond sicrhau bod y cartrefi hyn wedi'u harfogi'n dda, eu staffio â gweithwyr proffesiynol hyfforddedig, ac yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel. Roedd y pwyslais ar greu amgylchedd o feithrin lle gallai plant ffynnu.

Fodd bynnag, mae heriau sylweddol i gynnal gwytnwch ac effeithiolrwydd ar draws gwasanaethau statudol allweddol a chynnal cynnydd yn erbyn amcanion strategol y Cyngor. Mae'r heriau hyn yn cael eu cydnabod, ac mae effeithiolrwydd camau lliniaru yn cael eu monitro drwy'r broses rheoli risg gorfforaethol a'r Cynllun Trawsnewid Corfforaethol.


Y prif heriau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw digon o weithlu, pwysau ariannol cynyddol, digon o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal, lefelau uwch o alw, a lefelau uwch o gymhlethdod a

bregusrwydd ar draws continwrm angen. Ar draws y Gwasanaethau Oedolion, y prif heriau i lefelau perfformiad yw capasiti'r gweithlu, lefelau uwch o gymhlethdod cyflwyno angen, pwysau ariannol, diffyg capasiti gofal, a rhestrau aros maith.


Mae'r cyfuniad o'r holl ffactorau hyn yn golygu bod gwasanaethau gweithredol y Cyngor dan bwysau sylweddol, sy'n annhebygol o leddfu yn y tymor byr. Yn y cyd-destun hwnnw, mae perfformiad cryf parhaus yn llwyddiant sylweddol ond mae'n amlwg bod pryder y gallwn gyrraedd pwynt tyngedfennol lle mae perfformiad yn dechrau dirywio. Strategaeth y Cyngor i ganolbwyntio ar atal a lles, cefnogi unigolion, teuluoedd, gofalwyr, a chymunedau yn well i geisio gwaredu cynyddu angen y gellir ei osgoi yw'r strategaeth gywir o hyd. Gall gymryd blynyddoedd lawer i effaith dulliau atal leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus sydd dan bwysau gormodol. Mae perygl y gallai'r galw lethu rhai gwasanaethau statudol hanfodol cyn y trawsnewid y mae'r Cyngor yn ei sbarduno.

Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn

CAMAU



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL



Gellir dod o hyd i sylwadau a chanlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd y Flwyddyn 2023/24.



Meysydd i'w gwella 2023/24

Nododd ein hunanasesiad ar gyfer 2022/23 rai meysydd i'w gwella'n barhaus. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn 2023/24 wedi'i amlinellu isod:

MAES I'W WELLA 2023/24:

Canolbwyntio ar y camau nesaf i ddiogelu ein pobl fwyaf agored i niwed fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol diwygiedig Cyngor Abertawe 2023-28

Diweddariad 2023/2024:

Mae'r Cyngor yn disgwyl i bobl fregus yn Abertawe gael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae hyn bellach yn cael ei ddeall yn eang fel "busnes pawb", gan ein harweinwyr a'n haelodau etholedig a'n gweithlu, sefydliadau partner a'r unigolion sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor. Rydym drwy weithredu dull corfforaethol eang o ddiogelu pobl agored i niwed, yn sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ym mhob maes gwasanaeth yn y Cyngor, a'n bod yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner yn llawn yn y gwaith hwn.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Trwy Gynllun Lles y Cyngor, mae rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion a rhaglen Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i foderneiddio gwasanaethau cymdeithasol statudol, cynigion ataliol a lles.

Diweddariad 2023/2024:

Yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ein hymgyrch o ran gweledigaeth strategol eleni fu datblygu ymhellach ein ffocws ar ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a gwrando arnynt i ddeall beth sy'n bwysig iddynt am eu gofal a'u cefnogaeth eu hunain a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym wedi gweld llawer o ddatblygiadau cadarnhaol yn y maes hwn ac ochr yn ochr â'r fframwaith ymarfer cryf a chyson rydym wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth, mae hyn wedi ein galluogi i gyflawni gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff medrus a phrofiadol iawn. Yn y flwyddyn i ddod, bydd ein hymdrechion trawsnewid yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, gan ein helpu i gyflawni nodau ein rhaglen drawsnewid:

Y camau rydym wedi'u nodi i'n cefnogi i gyflawni'r Llesiant hwn yw:

- Recriwtio, cefnogi, datblygu a meithrin gweithlu talentog ac angerddol
- Cynnal ffocws ar les staff a datblygu mesurau sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o hyn
- Tyfu ein gweithlu o weithwyr cymdeithasol cymwys yn y dyfodol a staff cymwys eraill
- Datblygu ein Gwasanaethau yn barhaus i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r cymorth cywir ar yr adeg iawn i blant, pobl ifanc a theuluoedd

PARHAD...

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn symud ymlaen tuag at fodel mwy cynaliadwy, integredig o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pwysau ar wasanaethau iechyd lleol yn parhau i fod yn sylweddol, gyda phobl yn aros yn hirach am apwyntiadau a chatau dilynol, ac yn cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol gyda mwy o fregusrwydd a lefel llawer uwch o angen nag y byddai disgwyl i ni ei gefnogi. Mae'n parhau i fod yn heriol i'r Cyngor gefnogi mwy a mwy o unigolion sydd â lefelau uwch fyth o angen (yn enwedig anghenion iechyd arbenigol) heb newid ffocws sylweddol gan fyrrdau iechyd a buddsoddi mewn modelau integredig o wasanaeth cymunedol.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion yn ymroddedig i ddarparu rhaglenni newid strategol o dan themâu Atal a Chymorth Cynnar, Galluogi a Hyrwyddo Annibyniaeth, a Rheoli Gofynion. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymdrechion cydweithredol ar draws y gwasanaeth, y gyfarwyddiaeth a'r bartneriaeth ranbarthol i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Rydym yn parhau i weithio'n weithredol ochr yn ochr â'n partneriaid rhanbarthol a lleol i gyflawni ein hamcanion a rennir. Mae aliniad trawsnewid lleol gyda'n rhaglenni rhanbarthol bellach wedi'i nodi'n glir.

Rydym yn parhau i sicrhau bod mwy o bobl sydd â phrofiad byw o'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o'n gwaith – gan lywio'r hyn a wnawn yn uniongyrchol a hefyd drwy ddulliau gwell parhaus o ymgysylltu a chyfranogi. Rydym yn adeiladu ar ein 'pocedi' o arfer da yng Ngwasanaethau Oedolion o gyd-gynhyrchu, cyfathrebu cydweithredol, a thrwy gynyddu arferion sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws ystod ehangach o wasanaethau.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Cyfrannu tuag at gyflawni targedau sero net carbon ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan.

Diweddariad 2023/2024:

Mae Abertawe'n gweithio tuag at fodel mwy cynaliadwy a lleol o ofal cymdeithasol trwy barhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o wasanaethau atal, cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd sy'n helpu i hyrwyddo gwytnwch cymunedol. Gall mwy o wasanaethau nawr gael eu cyrchu'n uniongyrchol gan deuluoedd a dinasyddion. Er enghraifft: Mae ein model Hwb Cymorth Cynnar bellach wedi'i ddatblygu'n llawn, sy'n sicrhau bod gan blant a theuluoedd yn Abertawe fynediad at y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, gan y person cywir, waeth beth fo'u hoedran a'u lleoliad. Mae Hybiau Cymorth Cynnar Abertawe yn gweithio mewn dull cydgysylltiedig gydag unigolion a theuluoedd, gan gefnogi eu lles. Drwy ddefnyddio hybiau hygyrch yn y gymdogaeth ac un pwynt cyswllt ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rydym yn gwneud cyswllt yn haws ac yn lleihau'r angen i deithio.

Rydym hefyd yn defnyddio taliadau uniongyrchol mewn ffyrdd newydd i hwyluso sut mae gofalcwyr a rhieni-ofalcwyr plant ag anableddau ac anghenion cymhleth yn dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt. Trwy ddod at ei gilydd a chyfuno eu hadnoddau gallant gomisiynu eu gwasanaethau eu hunain a thyfu eu heconomi gofal cymdeithasol eu hunain, gan ddenu darparwyr lleol newydd, a fydd yn helpu i leihau trafndiaeth a'r effaith garbon.

Cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol

Cymru Fwy Ffyniannus: sicrhau bod gan y gweithlu, cymunedau ac unigolion y sgiliau a'r profiad i wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o dechnolegau digidol. Datblygu'r sgiliau cywir, arbenigedd technegol, arweinyddiaeth ar gyfer trawsnewid.

Cymru Gydnherth: rhesymoli ein hystâd weithredol a gweithredu model gwaith ôl-bandemig gyda threfniadau hybrid a gweithio gartref i leihau amser teithio ac allyriadau carbon.

Cymru o Gymunedau Cydlynus: gweithio tuag at Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau ym mhopeth a wnawn. Cefnogi cymunedau cydlynus, cynhwysol ac amrywiol.

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang: bydd datblygu dull o gaffael moesegol, creu buddion cymdeithasol a chymunedol a lleihau allyriadau carbon isel yn cael effaith gadarnhaol ar les byd-eang.

Cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Tymor hir – gweithredu Cynllun Trawsnewid Corfforaethol a rhaglenni i sicrhau bod model gweithredu, technoleg, prosesau, darparu gwasanaethau ac adnoddau'r Cyngor yn y sefyllfa orau i ateb y galw a'r heriau yn y dyfodol.

Atal – ffocws parhaus ar atal, cymorth cynnar a hunanwasanaeth, ailfodelu system gyfan gan gynnwys gwasanaethau i ateb mwy o alw ac anghenion cymhleth.

Cydweithio – mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Cynnwys – drwy sut rydym yn ymarfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, sut mae cyd-gynhyrchu cynlluniau a strategaethau, o fewn ein rhaglenni trawsnewid, trwy rannu arfer gorau ar draws yr holl wasanaethau, gan arweinyddiaeth fedrus a diwylliant dysgu.

Integreiddio – drwy asesu'r boblogaeth a Chynlluniau Ardal Rhanbarthol, drwy weithio tuag at nodau strategol a chanlyniadau a rennir i wella taith cleifion a mynediad at ofal a chymorth o ansawdd uchel a ddarperir gan weithlu brwdfrydig, medrus a phroffesiynol.

Astudiaethau Achos

Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i drawsnewid yr hyn y mae'n ei wneud fel bod plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi. Rydym yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall ac ymateb i'r hyn sy'n bwysig iddynt, wrth sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn iach. Mae'r dull hwn yn darparu buddion i blant bregus a'u teuluoedd. Mae hefyd yn cael ei gydnabod yn y proffesiwn fel arfer gorau. Er enghraifft, enillodd tîm 'Born into Care' Abertawe wobwr Creu Dyfodol Disglair ar

gyfer Plant yn nigwyddiad Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2024 yn gynharach eleni. Mae 'Born into Care' yn brosiect amlasiantaeth sy'n cael ei redeg trwy Wasanaethau Plant a Theuluoedd.

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth ar flaen y gad yng Nghymru o ran datblygu canllawiau ac arferion diogel, moesegol ac effeithiol i fabanod sydd mewn perygl o gael eu cymryd oddi wrth eu mamau ar enedigaeth. Cynigir gofal cyn-enedigol gwell i rieni, cymorth rhianta a chymorth ymarferol, ymweliadau cartref dwys, a chymorth grŵp. Mae'r prosiect yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n canolbwyntio ar atebion, ac yn gosod lleisiau a phrofiadau teuluoedd wrth wraidd yr hyn maen nhw'n ei wneud. Datblygwyd y gwasanaeth gan ddefnyddio'r ymchwil diweddaraf a thrwy wrando ar brofiadau a lleisiau rhieni, bydwagedd, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, gwarcheidwaid a gwasanaethau cyfreithiol yn y cyfnod cyn ac ar ôl geni.

Mae Born into Care yn sicrhau dyfodol gwell i fabanod bregus a'u teuluoedd. Yn anad dim, mae'n cael ei yrru gan angerdd, tosturi, caredigrwydd, a meddylgarwch gan bawb sy'n gysylltiedig - tuag at ei gilydd a thuag at rieni. Mae'n gwneud gwahaniaeth go iawn, gan roi gobaith i rieni, a helpu mwy o fabanod i aros yn ddiogel yng ngofal eu teulu.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn parhau i wella gwasanaethau a sut rydym yn gwneud pethau, wedi'u hysbrydoli gan ein hegwyddorion cyffredin o atal, hyrwyddo annibyniaeth a blaenoriaethu adnoddau. Mae ein dull 'Gwneud yr Hyn sy'n Bwysig' yn ail natur. Mae cyd-gynhyrchu wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i gomisiynu, dylunio, cyflwyno a gwerthuso prosiectau a gwasanaethau. O ran Gwasanaethau Oedolion mae hyn yn golygu gweithio gyda phobl a'u teuluoedd, gwranddo ar yr hyn sy'n bwysig iddynt fel bod ein gweithredoedd yn cael eu llywio gan eu dymuniadau a'r wybodaeth y maent yn ei rhoi i ni. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu a darparu'r mathau o wasanaethau sy'n arwain at ganlyniadau a buddion gwell i unigolion. Mae ein dull cyd-gynhyrchu yn golygu bod ein cynlluniau darparu gofal yn nodi'r hyn sydd ei angen i gwrdd ag anghenion lles, gofal a chymorth unigolion o ddydd i ddydd tra hefyd yn ystyried dewisiadau ac arferion personol.

Mae cyd-gynhyrchu hefyd yn berthnasol o ran dylunio, darparu ac adolygu ein holl wasanaethau ar gyfer pobl yn ein cymuned, gan gynnwys y rhai a ddarparwn ochr yn ochr â'n partneriaid fel y bwrdd iechyd lleol. Rydym yn defnyddio Strategaeth Cyd-gynhyrchu Abertawe ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel bod cyd-gynhyrchu wedi dod yn arfer safonol yn ein prosesau comisiynu a thendro. Mae hyn yn golygu bod gofalwyr a chleientiaid yn cyd-gynhyrchu meini prawf gwerthuso tendr ochr yn ochr â ni a'n partneriaid eraill.

Meysydd i'w gwella'n barhaus ar gyfer 2024/25


Y strategaeth gyffredinol ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn o hyd yw gweithredu dull cymorth cynnar, atal, a llesiant cynnar mwy cost-effeithiol, o ran cefnogi diogelu a lles ein poblogaeth a chynnal gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol.

MEYSYDD I'W GWELLA... BETH ALLWN NI EI WNEUD YN WELL?

Rhif	Gweithredu Gwella	Dyddiad cwblhau
Diogelu pobl rhag niwed		
1.	Gwneud yr hyn sy'n bwysig i wneud pethau'n well i blant, pobl ifanc a theuluoedd.	Parhaus
2.	Cynnal strategaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc a chefnogi mwy o blant i barhau i fyw'n ddiogel yn eu teuluoedd a'u cymunedau.	Mawrth 2025 a thu hwnt
3.	Parhau â'n buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol i leihau nifer y plant sy'n gwaethygu i lefel lle mae angen ymyrraeth gwasanaethau cymdeithasol statudol i blant.	Mawrth 2025
4.	Datblygu'r model optimwm cytûn ar gyfer oedolion ymhellach, trwy ymgorffori'r canlynol: ■ Atal ac ymyrraeth gynnar ■ Dull newydd o asesu ■ Gwell cost-efeithiolrwydd ■ Cydweithio'n well ■ Cadw pobl yn ddiogel	Mawrth 2025 a thu hwnt
5.	Ymgorffori ymhellach wasanaethau trechu tlodi a dulliau atal ar draws y Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor ehangach gan hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau o weithio gyda chymunedau ac ynddynt.	Mawrth 2025
6.	Parhau i sicrhau ein bod yn defnyddio ffrydiau refeniw ac incwm allanol yn y ffordd orau posibl yn lleol ac yn rhanbarthol i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor.	Mawrth 2025

ADOLYGU A HUNANASESU EIN HAMCANION LLESIANT

Amcan Lles 2: Gwella Addysg a Sgiliau



Amcan Lles 2: Gwella Addysg a Sgiliau

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan llesiant:

- Rydym eisiau i bob plentyn a pherson ifanc fynychu'r ysgol yn rheolaidd, i gael eu cynnwys, i fod yn wydn a chael dyfodol llwyddiannus.
- Rydym eisiau i bob plentyn a pherson ifanc feddu ar sgiliau Cymraeg da.
- Rydym eisiau cefnogi a chynnal arweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgol.
- Rydym yn awyddus i gefnogi a chynnal addysgu rhagorol.
- Rydym eisiau bob dysgwr dderbyn ei addysg mewn amgylcheddau sy'n gymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu.

Ein barn o'n perfformiad

Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg da iawn gyda chanlyniadau uwch na'r cyfartaledd i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r her o wella presenoldeb ysgol yn parhau, yn enwedig i ddysgwyr ysgolion uwchradd. Mae ysgolion wedi cael eu cefnogi'n dda i ddylunio eu cwricwlwm lleol gyda phwyslais cryf ar gefnogi sgiliau digidol, llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Amlochrog oedd dull y cyngor tuag at gyflawni'r amcan hwn. Roedd cymeradwyo ysgol arbennig newydd a gwelliannau i gyfleusterau addysgu arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd yn gamau hanfodol tuag at ddarparu addysg gynhwysol. Cytunwyd hefyd ar weithredu model newydd o ddarparu gwasanaethau i blant sydd angen addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Dyluniwyd y mentrau hyn fel bod gan bob plentyn, beth bynnag fo'i anghenion dysgu, fynediad at addysg o safon sy'n ei gefnogi i gyflawni ei botensial llawn.


Mae canlyniadau arolygu ac achredu yn dangos bod mwy o ysgolion yn gwella sgiliau Cymraeg disgyblion. Mae hyfforddiant a chefnogaeth i arweinwyr ysgolion ar lefel leol a rhanbarthol yn gryf. Mae gan bron pob arweinydd ysgol fynediad at lwybr gyrfa yn ogystal â chefnogaeth unigol ymroddedig, lle bo angen. Mae cefnogaeth datblygiad proffesiynol i athrawon yn cael effaith, gan gynnwys mewn meysydd fel datblygu rhwydweithiau ymarfer sy'n cynorthwyo hunanwerthuso a chwricwlwm yr ysgol. Mae newidiadau yn y dyraniad grant wedi arwain at gynllunio cymorth ychwanegol i ysgolion mewn meysydd allweddol o'r cwricwlwm newydd.

Rydym wedi bod yn adolygu ein model gweithredu mewn perthynas â'r Gwasanaeth Trechu Tlodi ac yn ddiweddar rydym wedi cwblhau ymarfer ailstrwythuro mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau cyllid grant allanol. Mae hyn wedi ein galluogi i wneud nifer o newidiadau sefydliadol i wella ein gwytnwch a'n cynaliadwydd fel gwasanaeth. Rydym mewn sefyllfa well i archwilio cyfleoedd cyllido newydd ar gyfer mentrau tymor byr wrth barhau i wella ein model gweithredu i gwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Cwblhau adolygiad Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor.

Diweddariad 2023/2024:

Gwnaethom gwblhau arolwg gyda'r cyhoedd ym mis Medi 2023 i gasglu barn pobl a sefydliadau ledled Abertawe mewn perthynas â'n dull strategol o fynd i'r afael â thlodi. Dilynwyd hyn gan ddadansoddiad helaeth o bolisiau, tueddiadau a gyrwyr strategol cyfredol i lywio cyfeiriad hirdymor y Cyngor yn y dyfodol. O ganlyniad, mae drafft o'r Strategaeth Trechu Tlodi ar ei newydd wedd yn mynd drwy weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori cyn cymeradwyaeth a chyhoeddiad terfynol.

MAES I'W WELLA 2023/24:**Datblygu a gweithredu'r Polisi Gwirfoddoli Corfforaethol.****Diweddariad 2023/2024:**

Rydym wedi penodi Swyddog Datblygu Gwirfoddoli i arwain ar gwblhau ein Polisi Gwirfoddoli Corfforaethol a'r dogfennau ategol sy'n hanfodol i wneud i'r polisi weithio (megis llawlyfr a phhecyn cymorth i reolwyr gwirfoddol eu defnyddio wrth gydlynw gwirfoddoli yn eu hardal). Rydym wedi cydlynw ein hymdrechion fel rhan o'r Grŵp Datblygu Gwirfoddoli Rhanbarthol o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd 2024/25.

Cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol

Cymru Fwy Ffyniannus: sicrhau y gall pobl sicrhau gwaith da, sgiliau addas ar gyfer y dyfodol a chaffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Cymru Iachach: cefnogi pobl i weithredu gyda thosturi, cefnogi creu lleoedd a dylunio iechyd a lles cymunedol.

Cymru o Gymunedau Cydlynus: creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, cefnogi cymunedau i fod â chysylltiadau da a diogel, sicrhau bod gan bawb fynediad at wasanaethau allweddol a gwerthfawrogi'r rôl y gall sefydliadau angori cymunedol posibl ei chwarae wrth adeiladu cymunedau cydlynus.

Cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Tymor hir – Taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr pobl mewn tlodi (megis yr angen am dai ac adnoddau hanfodol fel bwyd a dillad) gyda helpu pobl i wella eu ffyniant personol a'u dyheadau tymor hir ar gyfer y dyfodol. Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar gryfderau person, ar draws ein gwasanaethau i sicrhau ein bod yn ystyried anghenion tymor byr a hirdymor yr unigolyn, y teulu neu'r gymuned rydym yn gweithio gyda nhw.

Atal – Defnyddio ymyriadau cynnar, partneriaethau strategol a mentrau a arweinir gan y gymuned i ddefnyddio dull ataliol tuag at nid yn unig tlodi ond effeithiau ehangach tlodi, er mwyn sicrhau bod anghenion cynyddol yn cael sylw cyn bod angen ymyriadau gwasanaeth. Ceisio datrys problemau drwy gamau ataliol yn hytrach na dibynnu ar gymorth argyfwng, lleihau'r galw ar wasanaethau pwysig drwy nodi a mynd i'r afael â materion craidd tlodi yn gynnar ac yn effeithiol.

Cydweithio – Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar 'ddull systemau cyfan' o fynd i'r afael â thlodi a galluogi cymunedau gan gynnwys cymunedau eu hunain i adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael o gydweithio ac integreiddio gwasanaethau.

Cynnwys – Ymgorffori egwyddorion hawliau dynol a chyd-gynhyrchu wrth drechu tlodi a galluogi rhaglenni a mentrau cymunedau, mapio'r profiadau a dal lleisiau pobl sydd â phrofiad byw o dlodi.

Integreiddio – Datblygu fframwaith ar gyfer cysylltu ein canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n dangos cyfraniadau ein gwasanaethau a'n rhaglenni trawsnewid i strategaethau, polisiau ac amcanion cyrff cyhoeddus.

Astudiaeth Achos

Mae ein tîm Cyllid a Budd-daliadau wedi helpu rhai o'n preswylwyr mwyaf agored i niwed i arbed arian ac osgoi cronni ôl-ddyledion treth gyngor a chamau adfer gan yr awdurdod. Yn ystod yr argyfwng costau byw, rydym wedi newid rhai o'r ffyrdd rydym yn gweithio. Hyd yn hyn, mae'r newid wedi helpu preswylwyr ar incwm isel i hawlio £60,000 yr oedd ganddynt hawl i'w gael drwy'r cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Cyn i ni newid y ffordd rydym yn gweithio, roedd preswylwyr ar incwm isel yn mynd i ôl-ddyledion heb wybod y gallai fod ganddynt hawl i gael cymorth drwy'r cynllun gostyngiad. Nawr, wrth ddelio ag adfer ôl-ddyledion treth gyngor, bydd ein timau Refeniw yn gwirio i weld a oes dyfarniad cyfredol o Ostyngiad y Dreth Gyngor. Os nad yw'r preswilydd yn hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor a'r cam nesaf fyddai gofyn am atodiad gorchymyn budd-daliadau, bydd y Swyddog Refeniw yn cysylltu â'r tîm gwasanaethau cwsmeriaid yn gyntaf. Bydd y tîm hwnnw'n ymgysylltu â'r cwsmer ac yn nodi a fyddai'r preswilydd yn gymwys i gael Gostyngiad y Dreth Gyngor ac, os felly, yn gweithio gydag ef i gyflwyno hawliad. Os yw pobl yn cael trafferth ymgysylltu, gwneir nodiadau ar eu cofnodion i nodi pa gymorth pellach sydd ei angen. Mae'r dull newydd hwn hefyd yn helpu deiliaid tai i atal ôl-ddyledion rhag cronni yn y dyfodol os bydd eu hawl i ostyngiad y dreth gyngor yn newid.

At ei gilydd, mae'r newidiadau wedi lleihau ôl-ddyledion y dreth gyngor yn sylweddol ar gyfer aelwydydd incwm isel ar adeg anodd. Yn aml mae'n cynnwys cymorth parhaus i ddarparu rhywfaint o ryddhad mawr ei angen rhag pwysau ariannol.



Meysydd i'w gwella'n barhaus ar gyfer 2024/25

MEYSYDD I'W GWELLA... BETH ALLWN NI EI WNEUD YN WELL?		
Rhif	Gweithredu Gwella	Dyddiad cwblhau
Trechu tlodi a galluogi cymunedau		
1.	Cyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi sy'n cynnwys pobl sydd â phrofiad byw o dlodi, gan alinio ein hymrwymadau i weithredu gan gynnwys ymateb i adolygiad Archwilio Cymru o dlodi yng Nghymru.	Rhagfyr 2024
2.	Cynyddu gwaith y Cyngor i hyrwyddo trechu tlodi, gan hyrwyddo ein gweithredoedd a'n llwyddiannau yn ogystal â hybu ymwybyddiaeth o'r themâu a'r cyfleoedd ar gyfer trechu tlodi.	Gorffennaf 2024
3.	Adolygu rôl a dull y Cyngor o gefnogi cymunedau drwy ei raglenni trawsnewid, gwasanaethau lleol fel Cydgysylltu Ardaloedd Lleol ac ymrwymiad i alluogi cymunedau i ddod yn fwy gwydn a hunan-ddibynnol.	Rhagfyr 2024
4.	Cyflawni ymrwymadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gan gynnwys ein mentrau Prosiect Angor sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi a galluogi cymunedau.	Rhagfyr 2024
5.	Paratoi i lansio a hyrwyddo ein rhaglen Dinas Ddysgu UNESCO 2025 mewn partneriaeth â sefydliadau dysgu gydol oes.	Mawrth 2025
6.	Nodi ffyrdd o gynyddu graddfa a chyflymder y Rhaglen Darparu Mwy o Gartrefi.	Mawrth 2025
7.	Datblygu mathau eraill o lety dros dro i leihau'r defnydd o lety gwely a brecwast.	Mawrth 2026
8.	Datblygu Asesiad Stoc Cyfan a Llwybrau Ynni wedi'u Targedu ar gyfer stoc Tai sy'n eiddo i'r Cyngor i nodi'r gofynion buddsoddi a'r amserlenni i gyflawni'r safonau datgarboneiddio fel y nodir yn Safon Ansawdd Tai 2 newydd Cymru.	Mawrth 2027

ADOLYGU A HUNANASESU EIN HAMCANION LLESIANT

Amcan Lles 5:

Cyflawni Adfer Natur a Newid Hinsawdd



Amcan Lles 5: Cyflawni Adfer Natur a Newid Hinsawdd

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan llesiant:

- Yn dilyn datganiadau Llywodraeth Cymru dros Gymru, mae'r Cyngor wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Mehefin 2019 ac Argyfwng Natur ym mis Tachwedd 2021.
- Gan ddefnyddio Trywydd Llywodraeth Cymru i sero net, bydd y Cyngor yn cyd-fynd â'i egwyddorion, gan wybod beth sydd angen ei wneud nawr. Erbyn 2022-26 Carbon Isel fydd yn dod yn norm ac erbyn 2030 dewis carbon sero fydd yn arferol.
- Mae llywodraethu cadarn wedi'i sefydlu o fewn y Cyngor i weithredu ar heriau o'r fath a bydd yr holl weithgarwch yn cael ei yrru o fewn paramedrau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant Abertawe.
- Er mwyn sicrhau, yn ogystal â chyrraedd sero net 2030 i Gyngor Abertawe, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, sefydliadau, ysgolion, busnesau i gefnogi Abertawe fel sir gyfan a dinasyddion yn ei hymdrechion i ddod yn sero net erbyn 2050, gan alinio â Chyllideb Garbon Sero Net Cymru (2) 2022 / 2025. Sefydlu Siarteri Hinsawdd a Natur a Mur Addewid i annog cyfranogiad gweithredol a helpu i adeiladu Abertawe iachach, mwy ffyniannus a bioamrywiol / ecolegol gadarn.
- Abertawe yw un o'r siroedd mwyaf ecolegol gyfoethog ac amrywiol yn y DU. Mae angen cynnal a chadw, gwella a rheoli ei amrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau ac ystod wych o barciau, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau er budd pawb nawr ac i'r dyfodol.
- Mae ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth dan fygythiad ac yn dirywio oherwydd gweithgareddau dynol anghynaliadwy. Mae cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu colli ar raddfa frawychus ac anghynaliadwy. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o effeithiau colli bioamrywiaeth a newid hinsawdd ar lefel leol a darparu gwybodaeth, cyngor, a chefnogaeth ymarferol a chymhellion i annog eraill i weithredu a chydweithio i ddarparu atebion cadarnhaol i'r heriau hyn.
- Rydym eisiau i bawb gael mynediad at, deall, gwerthfawrogi ac elwa o amgylchedd naturiol rhagorol Abertawe a chwarae eu rhan wrth ofalu amdano a'i wella, gan arwain at Abertawe iachach, wyrddach a mwy llewyrchus.
- Mae ein goroesiad a'n hinsawdd bywyd yn y dyfodol yn dibynnu ar amgylchedd naturiol iach gwydn, y manteision lluosog y mae'n eu darparu i gymdeithas ac ar leihau ein hallyriadau carbon i sero net.
- Mae gennym gyfrifoldeb moesol i ofalu am fioamrywiaeth am ei werth cynhenid ei hun.

Ein barn o'n perfformiad

Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i adfer natur a gweithredu ar yr hinsawdd. Ymhlith y llwyddiannau mae cwblhau gosod pwynt gwefru cerbydau trydan yn depo Heol y Gors. Mae'r prosiect ynni adnewyddadwy uchelgeisiol yn ardal Porth Abertawe yn parhau i ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys cais llwyddiannus am gyllid diweddar i ddechrau ar gam nesaf dichonoldeb Rhwydwaith Gwresogi Ardal. Mae'r Tîm Ynni wedi lansio Pecyn Cymorth Ynni Rheolwyr Safleoedd, sy'n annog swyddogion i archwilio eu hadeiladau a gwneud newidiadau syml i helpu i leihau allyriadau ac arbed arian ar filiau ynni.

Trwy integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i brosiectau seilwaith, symudodd y Cyngor tuag at greu tirwedd drefol gydnerth a chyfeillgar i'r amgylchedd. Dyluniwyd mentrau fel datrysiadau palmant athraidd a systemau draenio cynaliadwy i leihau allyriadau a gwella gwytnwch trefol yn erbyn effeithiau hinsawdd. O ganlyniad i'r mentrau hyn, mae'r Cyngor yn parhau i leihau allyriadau a gwnaed cynnydd da ar gyflawni dangosyddion perfformiad. Mae'r tîm Cadwraeth Natur wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau partner ledled y Sir i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLI). Mae gan y cynllun gymeradwyaeth y Cabinet ac mae'n nodi amcanion a chamau gweithredu allweddol sy'n mynd i'r afael â materion sy'n achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth yn Abertawe. Mae'n cynnwys 25 o gamau allweddol i arwain grwpiau partner o fewn Partneriaeth Natur Lleol Abertawe. Mae cynllun dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 y Cyngor, sy'n rhan o'r CGANLI, hefyd wedi'i gymeradwyo. Un o'r nodau yw sicrhau bod o leiaf 30 y cant o fioamrywiaeth daearol a morol Abertawe yn cael ei ddiogelu a'i reoli'n effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030. Mae cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i lawer iawn o gamau adfer natur ddigwydd ar lawr gwlad.


Gan weithio tuag at darged sero net ledled y ddinas yn 2050, sefydlwyd y Grŵp Llofnodwyr Hinsawdd a chytunwyd ar brosiectau penodol:

- Datblygu Cynllun Addasu a Lliniaru Abertawe.
- Ymarfer mapio 'Arfer Da', dan arweiniad Camau Adfer Natur CNC.


Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r Cyngor yn wynebu sawl her gan gynnwys parhau gydag adnoddau ariannol a dynol cyfyngedig i gyflawni a gwthio'n galetach tuag at ei uchelgais NZ2030. Yn gyffredin â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae risg sylweddol na fydd y Cyngor yn cyflawni sero net 2030 heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol gan gynnwys cymorth cenedlaethol gydag adnoddau. Mae'r cynnydd hefyd o ran darparu adferiad natur yn dibynnu ar gynnal a chynyddu adnoddau ariannol a staff, gyda llawer ohonynt yn cael eu cefnogi gan gyllid grant cenedlaethol tymor byr.

Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn

CAMAU



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL



Gellir dod o hyd i sylwadau a chanlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd y Flwyddyn 2023/24

Meysydd i'w gwella 2023/24

Nododd ein hunanasesiad ar gyfer 2022/23 rai meysydd i'w gwella'n barhaus. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn 2023/24 wedi'i amlinellu isod:

MAES I'W WELLA 2023/24:

Datblygu ffocws ar gynnig am arian grant a cheisio cyllid y llywodraeth i gefnogi'r agenda.

Diweddariad 2023/2024:

2030 – Mae tri grant wedi'u sicrhau i helpu i leihau allyriadau a chefnogi'r strategaeth fflyd werdd. Roedd y grantiau'n seiliedig ar gyllid bwlch ar gyfer bysiau mini a RCVs yn ogystal â seilwaith gwefru trydan sy'n gyfanswm o £728,000 ynghyd â chyllid a sicrhawyd ar ffurf benthyciad di-log i brynu'r golau stryd LED newydd sy'n weddill ar draws yr awdurdod gan Salix Finance am £441,000.

Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru. Dyfarnodd rowndiau 1 a 2 £240,000 yn llwyddiannus i osod Pwmp Gwres Ffynhonnell Awyr a gwelliannau ffabrig adeiladu (wal ceudod ac inswleiddio to / dan y llawr i weithdy; gwydro dwbl) i'r Bloc Canolog yn Heol y Gors. Bydd hyn yn disodli system wresogi tanwydd ffosil ac yn dileu'r gofyniad am olew ar y safle. Mae'r Rhaglen Gwaith Prosiect i'w chwblhau erbyn 24 Tachwedd.

2050 – mae dau gais SFP wedi bod yn llwyddiannus. Roedd un yn cefnogi'r gwaith parhaus o redeg yr Hwb Ymwybyddiaeth Ynni 'Switched On' sy'n cael ei redeg gan ein partneriaid amgylcheddol. Roedd yr ail i ariannu'r gwaith o ddatblygu Cynllun Addasu a Lliniaru Abertawe gyfan.

PARHAD...

Dyfarnwyd i **Adfer Natur** – rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru - £1.2 miliwn dros flynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25 ar gyfer Adfer Natur yn fewnol ac yn allanol. Mae hyn yn ariannu llawer o gostau staff y tîm ac elfen gyfalaf fawr i'w dosbarthu ar lawr gwlad. Prif elfennau gwaith yw seilwaith gwyrdd, blodau gwyllt / mannau gwyrdd / creu cynefinoedd a gwella, plannu coed, a thyfu bwyd cymunedol. Dyfarnwyd £133,760 pellach drwy gais Cronfa Her ar gyfer prosiect cam 2 creu Coedydd Cwm Penllergaer. Ailfrandiwyd yr AHNE ym mis Mai fel Tirwedd Genedlaethol Gŵyr, gan ailymrwymo i Adfer a Chynhwysiant Natur. Bydd adolygiad o Gynllun Rheoli Penrhyn Gŵyr yn canolbwyntio ar “adfer natur”.

Mae'r Tîm **Tirwedd Cenedlaethol** wedi llwyddo i dderbyn cyllid grant allanol o tua £425,000 y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, y mae'r rhan fwyaf ohono'n canolbwyntio ar brosiectau ymarferol.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Newid ymddygiad ac addysg ar y flaenoriaeth hon i barhau ar draws y Cyngor a'r sir gyfan. Gwella negeseuon cyfathrebu ar straeon llwyddiant a pharhau i ddatblygu gwybodaeth ar y wefan a'r fewnwyd.

Diweddariad 2023/2024:

Sefydlwyd Grŵp Llofnodwyr y Siarter Hinsawdd i arwain yn strategol ar newid hinsawdd yn Abertawe. Mae'r bartneriaeth yn eang gydag aelodau mor amrywiol â SBUHB, Y Drindod Dewi Sant ac LNP i enwi ond ychydig. Gofynnodd BGC Abertawe i'r grŵp arwain Cam 3 Cynllun Lles Abertawe ac o'r herwydd mae ymarfer mapio, dan arweiniad CNC, wedi cael ei gynnal i bennu'r cyffredinedd a'r bylchau o fewn polisïau a strategaethau'r sefydliadau sy'n aelodau i alluogi mwy o aliniad yn y dyfodol ac mae wedi ymgysylltu â chontractwr i weithio gyda nhw i ddatblygu Cynllun Addasu a Lliniaru Abertawe. Mae hyn yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno mewn drafft i BGC ym mis Rhagfyr, ac ar ôl hynny bydd cynllun gweithredu'n cael ei lunio.

Mae'r Grŵp wedi comisiynu gwaith ar ei frandio (Prosiect Abertawe Sero) i gael negeseuon allan i'r cyhoedd a busnesau ehangach yn Abertawe. Ym mis Medi bydd yr ymgyrch 'Gwnewch y pethau bychain' yn cael ei lansio i annog newid ymddygiad cadarnhaol drwy gamau syml sy'n gysylltiedig ag ymgyrch Gweithredu Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru.

Mae amryw o brosiectau eraill wedi'u cyflawni i annog newid ymddygiad – roedd yr Wythnos Fawr Werdd yn llwyddiant ysgubol eleni gyda mwy o bobl ledled Abertawe yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ecogyfeillgar dros wythnos lawn ym mis Mehefin a chynhaliwyd yr ymgyrch gyntaf gyda stondin ym Marchnad Abertawe yn annog siopwyr i ddod â'u cynwysyddion aildefnyddiadwy eu hunain i stondinau a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â lleihau'r defnydd o blastig. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf o'i fath gyda mwy wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, wrth baratoi ar gyfer Abertawe i geisio bod yn ddinas ddi-blastig o fewn y blynyddoedd nesaf (tebyg i statws Dinas Masnach Deg). Cafodd prosiect Diwedd Tymor gyda'r ddwy Brifysgol, i wro o safleoedd tirlenwi ei dreialu yn Brynmill eleni a gwelwyd llawer iawn o eitemau cartref a bwyd yn cael eu rhoi i'r cwpwrdd cymunedol ac i fanciau bwyd.

PARHAD...

Mae'r wefan yn parhau i gael ei datblygu gyda chytundeb i'r tudalennau newid hinsawdd gael eu brandio fel Prosiect Sero Abertawe ac arddangos y prosiectau sy'n cael eu cyflwyno ar hyd a lled y sir.

Mae bwrdd y rhaglen yn cyfarfod bob chwe wythnos i drafod cynnydd agendâu gwaith sy'n ymwneud â CC&NR. Mae'r grŵp Cyfathrebu CC&NR yn cyfarfod bob chwarter i rannu gwybodaeth ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth ac i rannu arfer da.

Cymuned adfer natur / ymgysylltu â gwirfoddolwyr – mae grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru (LP4N) yn ariannu Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Adfer Natur, sydd wedi bod yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar draws Abertawe, gan gynnwys trefnu Her Natur y Ddinas. Mae'r grant hefyd yn ariannu Swyddog Prosiect Cymunedau a Natur i ymgysylltu â llawer o bartneriaid allanol a'u cefnogi i ymgymryd â gwaith adfer natur gyda chyllid cyfalaf a ddarperir hefyd drwy'r grant LP4N, gan gynnwys Fferm Gymunedol Abertawe, Canolfan yr Amgylchedd, Coed Lleol, Prosiect Perllan, Cae Felin CSA, ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru.

Mae'r Hwb Ymwybyddiaeth Ynni ar y Stryd Fawr wedi bod yn helpu pobl drwy roi cyngor diduedd am ddim ar leihau'r defnydd o ynni a lleihau biliau yn ogystal â chyfleodd i fuddsoddi er mwyn cynilo. Ers ailagor fis Tachwedd diwethaf, mae wedi helpu dros 337 o aelwydydd i leihau eu defnydd o ynni a'u hallyriadau carbon.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi meysydd gwasanaeth i leihau allyriadau o fewn ffin 2030, h.y. fflyd, gwastraff, caffael.

Diweddariad 2023/2024:

Mae rheolwr prosiect sy'n ymroddedig i leihau carbon wedi'i benodi i gefnogi meysydd gwasanaeth sy'n gweithio ar y chwe thema o fewn ffiniau sefydliadol allyriadau Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiectau'n cynnwys help i ôl-osod a gwres pwrpasol o amgylch tanwyddau ffosil, rhaglen waith EVCI, goleuadau stryd newydd LED, pecyn cymorth newid ymddygiad mewnol a sefydlu'r monitro ynni ar lefel y safle ar draws ystâd y cyngor. Bu ceisiadau grant llwyddiannus hefyd a sicrhau mesurau cyllido amgen i yrru'r llwyddiannau yn ystod y 12 mis diwethaf a nodwyd uchod.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Ymwreiddio'r llywodraethu cadarn ar agenda ehangach 2050 i sicrhau bod cydberthnasau cydweithio cryf â llofnodwyr y siarter hinsawdd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn wirioneddol effeithiol ac yn cyflawni allbynnau.

Diweddariad 2023/2024:

Ers sefydlu Grŵp Llofnodwyr y Siarter Hinsawdd yn 2023 mae wedi datblygu Cylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd tryloyw a chydweithredol. Mae gwaith y grŵp wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gyfraniad sylweddol i'r agenda newid hinsawdd yn Abertawe gyda lansiad tawel ei frandio ym mis Tachwedd 2023 a'r rôl y mae wedi'i chymryd ar gyfer BGC.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Parhau i ychwanegu modiwlau at y gyfres o e-hyfforddi Newid Hinsawdd ac Adfer Natur i gefnogi bylchau mewn hyfforddiant yn ôl yr angen.

Diweddariad 2023/2024:

Datblygwyd dau fodiwl ar gyfer Newid Hinsawdd ac Adfer Natur ar gyfer staff ac maent ar gael drwy'r platform e-ddysgu. Mae cyflwyniadau diogelwch hefyd wedi'u datblygu ac mae hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i gyflwyno i feysydd gwasanaeth sydd wedi gofyn amdano.

Cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol

Cymru Fwy Llewyrchus: Mae Abertawe wedi'i henwi yn un o'r 5 dinas werdd orau yn y DU i fuddsoddi ynddynt gan Grŵp Bancio BNP Paribas. Mae Abertawe fwy gwyrdd nid yn unig yn gwella lles ond yn denu cyllid y sector preifat ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth.

Cymru fwy Cyfartal: Roedd y ganolfan Ymwybyddiaeth Ynni a'r sioe deithiol 'Switched On' yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth annibynnol, ddiduedd am ddim i bob deiliad tŷ ar sut i wella effeithlonrwydd ynni, newid darparwyr a chael gafael ar gymorth. Mae mynediad at wybodaeth yn galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol mewn marchnadoedd ynni a dod o hyd i gymorth yn ystod yr argyfwng ynni cenedlaethol a'r argyfwng hinsawdd gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau eraill. Ein nod yw darparu mynediad i fannau gwyrdd o safon a natur ar gyfer ein holl gymunedau.

Cymru iachach: Mae mynediad at fannau natur gwyrdd cyfoethog o ansawdd da lleol yn gwella lles meddyliol a chorfforol tra bod aer glân, dŵr diogel a phriddoedd da yn sail i iechyd y boblogaeth.

Cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Tymor hir – Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn ceisio rheoli gwasanaethau ecosystem ar gyfer y tymor hir, gan ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur lle bo hynny'n bosibl. Mae mesurau lliniaru ac addasu newid hinsawdd ac adfer natur yn cael eu cynnwys yn fwyfwy amlwg ar draws holl gynlluniau a strategaethau ein gwasanaethau gan ystyried yr effaith ar dueddiadau'r dyfodol.

Atal – Mae nodi materion heriol yn gynnar yn ein helpu i liniaru difrifoldeb y materion. Er enghraifft, nodwyd argaeledd sgiliau technoleg gwyrdd yn gynnar, a chymerwyd camau i adeiladu sgiliau yn fewnol. Mae'r buddsoddiad adeiladu gwydnwch hwn yn heriol gan fod hyfforddiant addas yn brin, ac mae cadw staff hyfforddedig yn broblem gan fod cyfraddau'r sector preifat yn tueddu i fod yn uwch. Addasu yn ogystal â lliniaru yw ein ffocws yn gynyddol gan fod effeithiau newid hinsawdd eisoes yn digwydd neu'n anochel. Nodir bod cynnal cysylltedd ecolegol a gwydnwch ecosystemau yn flaenoriaeth strategol allweddol.

Cydweithio – Gwell gweithio rhanbarthol gyda Chastell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ar yr agenda ynni. Defnyddio partneriaid amgylcheddol yn effeithiol i estyn allan i fusnesau, sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae cydweithredu effeithiol yn parhau gydag ystod eang o bartneriaid.

Cynnwys – Mae'r Cyngor yn cymryd camau eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd fel sefydliad, ond rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol y bydd angen i ddinasyddion, busnesau, cymunedau, gwirfoddolwyr a'n sefydliadau partner chwarae eu rhan. Wrth i ddewisiadau ddod yn anoddach, mae deall amrywiaeth profiadau byw ein poblogaeth, disgwyliadau a chymhellion y cyhoedd yn hanfodol i wneud penderfyniadau. Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y rhai mwyaf agored i niwed yn anghymesur, felly rydym yn buddsoddi fwyfwy mewn cyfranogiad i sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed.

Integreiddio – Mae ein dull o ymdrin â'r flaenoriaeth hon wedi'i hadeiladu o amgylch polisiau cyngor trawsbynciol allweddol sy'n effeithio ar bob cyfarwyddiaeth. Rydym yn ystyried gofynion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â chysylltiadau â mentrau allweddol y Cyngor megis gwaith Dinas Hawliau Dynol.

Astudiaeth Achos

Nod y Cyngor yw bod yn sero net erbyn 2030 ac uchelgais Abertawe yw bod yn ddinas sero net erbyn 2050. Un o'r prif fentrau i helpu i gyflawni'r uchelgais ledled y ddinas yw creu fferm solar yn hen safle tirlenwi Tir John. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac mae cytundeb tir bellach ar waith i helpu i greu un o gyfleusterau cynhyrchu ynni solar mwyaf y DU yn yr hen safle tirlenwi ym Mhorth Tennant. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, byddai'r fferm solar wedi'i lleoli ar dir sydd wedi'i gapio a'i laswelltio dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r cytundeb tir wedi'i gwblhau rhwng y Cyngor a chwmnïau sector preifat o'r enw DST Innovations a Batri Ltd. Mae'r cynlluniau newydd yn ehangu ar gynlluniau ffermydd solar blaenorol ar gyfer y safle a gymeradwywyd yn 2020. Byddai'r cynnig yn arwain at gyfleuster ynni solar sy'n

gallu cynhyrchu dros 11,000 MWh y flwyddyn pan fydd yn gwbl weithredol i greu datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol. Byddai'r cyfleuster yn cynnwys mwy na 5,000 o baneli solar. Byddai'r Cyngor yn prydlesu'r tir i DST Innovations ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n arwain ar brosiect ynni adnewyddadwy mawr yn y ddinas y bwriedir iddo gynnwys morlyn llanw hefyd.

Mae nodweddion eraill prosiect DST Innovations a glustnodwyd ar gyfer ardal porthladd Abertawe yn cynnwys canolfan drafnidiaeth ynni adnewyddadwy, canolfan gweithgynhyrchu batri uwch-dechnoleg, eco-gartrefi wedi'u hangori yn y dŵr, a chanolfan ymchwil eigionol a newid hinsawdd.

Meysydd i'w gwella'n barhaus ar gyfer 2024/25

MEYSYDD I'W GWELLA... BETH ALLWN NI EI WNEUD YN WELL?		
Rhif	Gweithredu Gwella	Dyddiad cwblhau
Cyflawni Adfer Natur a Newid Hinsawdd		
1.	Parhau i gynyddu nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ar CC&NR yn ystod 24-25.	Mawrth 25
2.	Rheolwr y Fflyd i gynnal adolygiad o reolaeth fflyd bresennol y Cyngor er mwyn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl.	Mawrth 25
3.	Parhau i adeiladu ar waith cydweithredol rhanbarthol da i ddatblygu'r LAEP a'r CTRh yn 2024-25.	Mawrth 25
4.	Pob arweinydd i adolygu cynllun dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 a gweld sut y gallant gyfrannu at gamau gweithredu?	Mawrth 25

ADOLYGU A HUNANASESU EIN HAMCANION LLESIANT

Amcan Lles 6:

Trawsnewid a Chadernid Ariannol



Amcan Lles 6: Trawsnewid a Chadernid Ariannol

Pam mae hwn yn Amcan Lles:

Mae Abertawe'n wynebu heriau eithriadol oherwydd pwysau economaidd a demograffig parhaus. Gan fod unigolion, cymunedau a chyrff cyhoeddus yn Abertawe yn dibynnu fwyfwy ar wasanaethau cyhoeddus, mae'r gwasanaethau hyn mewn perygl oherwydd bod costau'n codi tra bod cyllid yn gostwng mewn termau real.

Yn yr amgylchedd heriol hwn, rhaid i'r Cyngor arloesi a thrawsnewid y ffordd y mae'n gweithredu i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol a chyflawni ei ymrwymadau. Mae hyn yn golygu gweithio'n agosach gydag eraill a sicrhau bod ein holl ymdrechion yn cael eu cyfeirio tuag at gwrdd ag anghenion ein poblogaeth nawr ac yn y dyfodol.

Ein gweledigaeth ar gyfer y flaenoriaeth hon yw sicrhau canlyniadau sydd cystal, os nad yn well nag o'r blaen, wrth wella ein heffeithlonrwydd trwy wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio a sut mae ein gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u cyflenwi.

Pam mae Trawsnewid a Gwydnwch Ariannol yn Amcan Lles:

- **Rheolaeth Ariannol Gynaliadwy:** Mae angen i ni reoli cyllid cyhoeddus yn gynaliadwy, gan gydnabod y cyfyngiadau ariannol sylweddol y byddwn yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- **Amddiffyn rhag Risgiau Mawr:** Mae'n hanfodol amddiffyn y Cyngor rhag risgiau allanol mawr, megis bygythiadau seiberddiogelwch a diogelwch data, yn ogystal â'r heriau sy'n ein hwynebu wrth recriwtio a chadw, yn enwedig mewn rhai gwasanaethau.
- **Ailgynllunio Gwasanaethau:** Mae angen i ni ailgynllunio ac ailfodelu rhannau o'r sefydliad a'i wasanaethau i gwrdd ag anghenion a disgwyliadau newidiol ein dinasyddion o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.
- **Gwella Gwasanaeth Cwsmeriaid:** Ein nod yw gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid fel y gall dinasyddion gael gafael ar gyngor, arweiniad, gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor pryd bynnag a sut bynnag y mae eu hangen arnynt.
- **Gwell Ymgysylltiad a Chyfranogiad:** Rydym eisiau gwella sut rydym yn ymgynghori, ymgysylltu a chynnwys ein poblogaeth i'n helpu i ddylunio gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn effeithlon.
- **Lleihau ein Hôl Troed Carbon:** Rydym wedi ymrwymo i leihau ôl troed carbon y Cyngor fel rhan o'n hymdrechion cynaliadwyedd.
- **Meithrin Diwylliant Uchel ei Berfformiad:** Yn olaf, ein nod yw creu diwylliant o fewn y cyngor sy'n gwerthfawrogi perfformiad uchel, dysgu a gwelliant parhaus.

Ein barn o'n perfformiad

Asesiad Strategol

Mae'r Cyngor wedi dangos cryn hyblygrwydd a rhagwelediad strategol wrth fynd i'r afael â heriau ariannol fel chwyddiant, dyfarniadau cyflog, a newidiadau demograffig. Mae ein strategaeth ariannol, sy'n pwysleisio trawsnewid a gwytnwch, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae golwg fanylach yn datgelu meysydd lle gallai sylw pellach wella effeithiolrwydd a chynaliadwyedd ein hymdrechion.

Roedd gweithredoedd y Cyngor yn 2023-24 i wella effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau yn gadarnhaol, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf i gynnal sefydlogrwydd cyllidol. Llwyddwyd i wneud arbedion sylweddol a chynyddwyd y dreth gyngor yn isel, ond mae'n bwysig ystyried a yw'r mesurau hyn ar eu pennau eu hunain yn ddigonol i sicrhau iechyd ariannol hirdymor yng nghanol pwysau economaidd parhaus. Mae'r buddsoddiad yn y Rhaglen Mwy o Gartrefi yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag anghenion tai a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, er y gallai ehangu'r fenter hon fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael yn llawn â'r heriau tai ehangach.

Mae ffocws y Cyngor ar drawsnewid, yn enwedig mewn gwasanaethau oedolion a phlant, yn amlwg ac yn addawol. Mae'r newid tuag at atal ac annibyniaeth yn nodi ymagwedd flaengar tuag at ofal. Fodd bynnag, bydd sicrhau bod y newidiadau hyn yn gynaliadwy'n gofyn am ystyried dyrannu adnoddau a systemau cymorth yn ofalus. Mae'r rhaglen Ysgolion lawn yn y Llefydd lawn hefyd yn tynnu sylw at ymrwymiad y Cyngor i wella seilwaith addysgol, sy'n galonogol. Bydd angen ymdrechion parhaus i sicrhau bod y fenter hon yn diwallu'r galw cynyddol am addysg o safon, i bob dysgwr.

Mae ffocws y Cyngor ar drawsnewid digidol yn ddatblygiad cadarnhaol arall, gyda phrosiectau fel Gwella Mynediad i Gwsmeriaid yn arddangos dull blaengar o feddwl. Mae'r mentrau hyn wedi'u cynllunio i wella mynediad i wasanaethau ac effeithlonrwydd gweithredol. Fodd bynnag, bydd llwyddiant y prosiectau hyn yn dibynnu ar sicrhau bod gweithredu technoleg yn hawdd ei ddefnyddio ac yn gynhwysol, yn enwedig i drigolion sy'n llai cyfarwydd â llwyfannau digidol.


Mae datblygu'r gweithlu'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae ein ffocws ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yn sylfaen gref ar gyfer adeiladu tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r ymdrechion hyn, bydd y Cyngor yn parhau i weithredu i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw gweithwyr, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth allweddol lle mae cystadleuaeth am dalent yn uchel.

Mae gwaith y Cyngor o ran cryfhau rheolaeth perfformiad a llywodraethu drwy brosesau hunanasesu yn gam cadarnhaol tuag at fwy o atebolrwydd a gwelliant parhaus. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu ei ymagwedd foesegol tuag at gaffael sy'n ceisio cydbwyso gwerth cymdeithasol â'r angen am gost-effeithiolrwydd, sy'n arbennig o bwysig mewn amgylchedd o gyllideb gyfyngedig. Mae ymdrechion i resymoli ystâd y Cyngor ar gyfer effeithlonrwydd a chynaliadwyedd amgylcheddol hefyd wedi bod yn galonogol, gan adlewyrchu ymrwymiad i nodau amgylcheddol hirdymor.

Mae ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn glir, fel y dangosir gan yr Asesiadau Effaith Integredig a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae gwreiddio'r egwyddorion hyn i mewn i weithrediadau bob dydd yn hanfodol, a gyda ffocws parhaus, bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ymrwymïadau hyn yn troi'n ganlyniadau ystyrlon sy'n hyrwyddo cynwysoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Gweler yr astudiaeth achos isod am fwy o wybodaeth am ein gwaith Hawliau Dynol.

Yn olaf, mae ymwybyddiaeth y Cyngor o risgiau strategol, fel rheolaeth ariannol a recriwtio gweithlu, yn galonogol. Drwy barhau i fireinio a chryfhau ein strategaethau rheoli risg a lliniaru, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod yr heriau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol, gan gefnogi ein nodau ehangach o wasanaethu'r gymuned yn effeithlon ac yn effeithiol.

Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn



Gellir dod o hyd i sylwadau a chanlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd y Flwyddyn 2023/24.

Meysydd i'w gwella 2023/24

Nododd ein hunanasesiad ar gyfer 2022/23 rai meysydd i'w gwella'n barhaus. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn 2023/24 wedi'i amlinellu isod:

MAES I'W WELLA 2023/24:

Cryfhau'r cysylltiad rhwng Cynllun Trawsnewid Corfforaethol y Cyngor a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Diweddariad 2023/2024:

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025-28 yn cynnwys adran ar Gynllun Trawsnewid Corfforaethol (CTC) y Cyngor, gan fynegi sut mae'r ddau gynllun yn alinio a sut mae'r olaf yn cefnogi'r cyntaf. Mae arbedion a nodwyd fel rhai y gellir eu cyflawni gan y CTC hefyd wedi'u hamlinellu. Mae adroddiad manwl o'r arbedion hyn hefyd wedi'i gynnwys mewn adroddiad monitro cyllideb chwarterol.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Cynhyrchu strategaeth ymgysylltu â staff.

Diweddariad 2023/2024:

Lansiwyd strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu fewnol y staff ym mis Hydref 2023, yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys staff, cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth. Ei nod yw darparu cyfathrebu mewnol perthnasol ac effeithiol sy'n hysbysu, yn ymgysylltu ac yn annog ein holl staff i deimlo'n rhan o'r Cyngor, gan hyrwyddo gwell perfformiad a chysylltiad â'n gwerthoedd a'n hymddygiadau corfforaethol. Mae'n ystyried ac yn gyson â'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Trawsnewid (Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy), Strategaeth y Gweithlu a strategaethau a pholisïau allweddol eraill y Cyngor. Mae'r gwerthusiad yn dangos ymgysylltiad cryf gan staff â gwybodaeth sy'n cael ei chyfathrebu.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Cynnal arolwg trigolion i lywio proses cynllunio cyllideb 2023-24 ac adolygiad blynyddol o berfformiad.

Diweddariad 2023/2024:

Yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru, cytunwyd i ailgyflwyno arolwg trigolion blynyddol i helpu olrhain lefelau perfformiad a boddhad a'n helpu i fodloni'r gofynion ymgysylltu a amlinellir yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Byddai'r canlyniadau'n llywio'r broses gyllideb flynyddol a'r adolygiad blynyddol o berfformiad ac yn rhoi cyfoeth o wybodaeth i'r Cyngor a ddefnyddiwyd i lywio ein gwasanaethau a'n gwaith yn y dyfodol.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Adolygu'r trefniadau rheoli risg corfforaethol i wella dealltwriaeth a rheolaeth y Cyngor o risgiau a materion.

Diweddariad 2023/2024:

Cynhaliodd y Cyngor adolygiad yn ystod 2023-24 a datblygwyd polisi, fframwaith a phroses newydd ar gyfer nodi, monitro a rheoli risgiau a phroblemau. Mae system ddigidol newydd yn cael ei datblygu i gefnogi'r trefniadau newydd.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Adolygu a diweddarau cynlluniau gweithlu'r Gwasanaethau Corfforaethol i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw ac adeiladu gwytnwch.

Diweddariad 2023/2024:

Lluniodd pob gwasanaeth cyngor gynllun gweithlu sy'n nodi materion recriwtio a chadw penodol a sut y byddant yn cael sylw.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Datblygu Cynllun Gweithredu Dinas Hawliau Dynol Cyngor Abertawe.

Diweddariad 2023/2024:

Datblygwyd cynllun gweithredu Hawliau Dynol ar gyfer Cyngor Abertawe sydd ar gael i'w weld ar ein gwefan. Er mwyn atgyfnerthu ymhellach ein hymrwymiad i hawliau dynol a sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym wedi creu ein Cynllun Cydraddoldeb Hawliau Dynol a Strategol cyntaf ar gyfer 2024-28. Bydd y cynllun hwn yn arwain ein hymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau dynol yn Abertawe am flynyddoedd i ddod.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Adolygu'r Cynllun Deisebau ac adrodd i'r Cyngor.

Diweddariad 2023/2024:

Adolygwyd y cynllun deisebau ym mis Medi 2023 ac adroddiad a roddwyd gerbron y Cyngor yn manylu ar y newidiadau. Nod y newidiadau a wnaed i'r cynllun yw gwneud y broses yn symlach ac yn llai beichus i ddeisebwyr.

MAES I'W WELLA 2023/24:

Arwain y gwaith o ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, i gynnwys canlyniadau.

Diweddariad 2023/2024:

O dan Gam 8 Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC), datblygodd a gweithredodd y BGC Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i fonitro a rheoli rhaglen waith y Bwrdd yn erbyn pob un o'r wyth cam yn y cynllun. Mae'r Fframwaith yn cynnwys amcanion, cerrig milltir, canlyniadau a fwriedir a mesurau a dangosyddion perfformiad allweddol.

Cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol

Cymru Fwy Ffyniannus: sicrhau bod gan y gweithlu, cymunedau ac unigolion y sgiliau a'r profiad i wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n codi o dechnolegau digidol. Datblygu'r sgiliau cywir, arbenigedd technegol, arweinyddiaeth ar gyfer trawsnewid.

Cymru Gydnerth: rhesymoli ein hystâd weithredol a gweithredu model gwaith ôl-bandemig gyda threfniadau hybrid a gweithio gartref i leihau amser teithio ac allyriadau carbon.

Cymru o Gymunedau Cydlynus: gweithio tuag at Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol ac ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau ym mhopeth a wnawn. Cefnogi cymunedau cydlynus, cynhwysol ac amrywiol.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang: bydd datblygu dull o gaffael moesegol, creu buddion cymdeithasol a chymunedol a lleihau allyriadau carbon isel yn cael effaith gadarnhaol ar les byd-eang.

Cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Tymor hir – gweithredu cynllun a rhaglenni Trawsnewid Corfforaethol i sicrhau bod model gweithredu, technoleg, prosesau, darparu gwasanaethau ac adnoddau'r Cyngor yn y sefyllfa orau i ateb y galw a'r heriau yn y dyfodol.

Atal – nodi a rheoli risgiau presennol ac yn y dyfodol, paratoi ar gyfer heriau'r dyfodol, ystwytho ac ymateb i heriau. Parhau i ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a hunanwasanaeth, cwblhau prosiectau digidol, awtomeiddio pellach ac ailfodelu gwasanaethau/prosesau i reoli galw cwsmeriaid.

Cydweithio – gwella cydweithredu mewnol trwy fanteisio ar dechnoleg, strategaeth a hyfforddiant ein gweithlu. Meithrin gwell cydweithio allanol gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, Partneriaeth Gorllewin Morgannwg a Phartneriaeth.

Cynnwys – datblygu ein gallu ar draws sbectrwm cyfranogiad o ymgynghori hyd at ddatblygu gallu a chapasiti cyd-gynhyrchu trwy brosiectau peilot a rhannu arfer gorau. Gweithredu ein strategaeth cyfranogiad cyhoeddus.

Integreiddio – Datblygu fframwaith ar gyfer cysylltu ein canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n dangos cyfraniadau ein gwasanaethau a'n rhaglenni trawsnewid i strategaethau, polisïau ac amcanion cyrff cyhoeddus.

Astudiaeth Achos

Mae Abertawe'n falch o fod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru, lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal, lle mae pawb yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a lle rydym i gyd yn parchu hawliau ein gilydd. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rydym wedi lansio sawl menter i ymgorffori hawliau dynol yn ein polisïau a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ledled ein cymuned.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau allweddol fel Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Mae pob un o'r sefydliadau hyn yn datblygu ei gynllun gweithredu ei hun i osod hawliau dynol wrth wraidd ei waith.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol, rydym wedi dosbarthu canllawiau i'r cyhoedd ac amrywiol sefydliadau. Mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, rydym wedi darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau dynol ar gyfer cynghorwyr, uwch reolwyr a llunwyr polisi o fewn y Cyngor a'n sefydliadau partner. Rydym hefyd wedi lansio cylchlythyr i hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd am ein gwaith parhaus fel Dinas Hawliau Dynol.

Er mwyn atgyfnerthu ymhellach ein hymrwymiad i hawliau dynol a sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym wedi creu ein Cynllun Cydraddoldeb Hawliau Dynol a Strategol cyntaf ar gyfer 2024-28. Bydd y cynllun hwn yn arwain ein hymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau dynol yn Abertawe am flynyddoedd i ddod.

Meysydd i'w gwella'n barhaus ar gyfer 2024/25

MEYSYDD I'W GWELLA... BETH ALLWN NI EI WNEUD YN WELL?		
Rhif	Gweithredu Gwella	Dyddiad cwblhau
Transformation and Financial Resilience		
1.	Cynllunio Ariannol Tymor Hir: Er bod y mesurau presennol yn gryf, gallai archwilio strategaethau ychwanegol ar gyfer sefydlogrwydd ariannol hirdymor ddiogelu ymhellach rhag heriau economaidd.	31 Mawrth 2025
2.	Darparu Gwasanaeth Cynaliadwy: Sicrhau bod yr adnoddau a'r systemau cymorth ar waith i gynnal gwasanaethau allweddol wrth iddynt drawsnewid.	31 Mawrth 2025
3.	Trawsnewidiad Digidol Cynhwysol: Bydd parhau i ganolbwyntio ar wneud gwasanaethau digidol yn hygyrch i bob preswlydd yn helpu i sicrhau llwyddiant strategaeth ddigidol y Cyngor.	31 Mawrth 2025
4.	Datblygiad Gwell i'r Gweithlu: Gan adeiladu ar raglenni arweinyddiaeth a rheoli presennol, bydd strategaethau pellach i ddenu a chadw talent yn cryfhau'r ffordd y darperir gwasanaethau.	31 Mawrth 2025
5.	Cynnwys Goruchwyliaeth Allanol: Gall ategu hunanasesu gydag adolygiadau allanol wella llywodraethu ac atebolrwydd, gan sicrhau gwelliant parhaus.	31 Mawrth 2025
6.	Strategaeth Gaffael Gytbwys: Bydd mireinio strategaethau caffael i gydbwysu ystyriaethau moesegol yn well â chost-effeithiolrwydd yn cefnogi twf cynaliadwy.	31 Mawrth 2025
7.	Ymgorffori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: Bydd dyfnhau integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol i weithrediadau dyddiol yn sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn arwain at ganlyniadau diriaethol, cadarnhaol i'r gymuned.	31 Mawrth 2025
8.	Adolygu polisi absenoldeb salwch y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i sicrhau bod ein trefniadau'n cefnogi lles a rheoli salwch effeithiol.	31 Mawrth 2025
9.	Cynnal Asesiadau Lefel Uchel o ystâd y Cyngor i nodi cyfleoedd i leihau allyriadau carbon a lleihau costau.	31 Mawrth 2025
10.	Parhau ac ehangu'r rhaglen newid ymddygiad presennol. Mae ein rhaglen newid ymddygiad yn darparu hyfforddiant ac offeryn i gynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon yn ein hadeiladau a'n hysgolion.	31 Mawrth 2025

